# COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANILAR
a gynhaliwyd ar y 2il o Chwefror 2016
am 8.00y.h.

**PRESENNOL:- Cynghorwyr:- Ann Tudor (Cadeirydd), Ada Evans, Meirion Davies, , Dylan Edwards, Caredig Jones, Rowland Jones Meic Francis, Richard Davies a Dewi Rattray.**

**YMDDIHEURIADAU: Cyng. John Davies.**

**ABSENOLDEBAU:** Nid oedd unrhyw Absenoldebau.

Dachraeodd y cyfarfod am 8.00 o'r gloch. Chroesawyd yr aelodau i gyfarfod Miss Chwefror gan y Cadeirydd Ann Tudor.

**15/899**
Darllenwyd cofnodion cyfarfod Miss Ionawr gan y Clerc a phasiwyd eu bod yn gywir. Cynigiwyd gan y Cyng. Meic Francis ac fe eiliwyd gan y Cyng. Meirion Davies

**15/900 - MATERION YN CODI**

1. Diolchwyd y Cyng.Ann Tudor i bawb wnaeth helpu clirio'r goden Nadolig yn y sgwâr.
2. Yn anffodus, nid oes lawr o enwau ar gyfer Difib training at y 16 o Chwefror. Fe benderfynwyd bydd well ohirio'r noson nes hwyrach yn y flwyddyn. Phasiwyd i'r clerc cysylltu â Glan Davies ynglŷn â hyn.
3. Nid oes unrhyw ymateb pellach wedi derbyn wrth Dai Ceredigion ynglŷn â'r golau yn Gwarfelin. Ofynnwyd i'r clerc anfon e-bost i Dai Ceredigion a Chyngor Ceredigion i ofyn am ddiweddariad ar y sefyllfa yma.
4. Mi fydd arbenigwr CCTV yn ymweld â'r cyngor yn y Canolfan Hen Ysgol ar y 3ydd Chwerfor, er mwyn drafod a rhoi cyngor ar y mathau gwahanol o CCTV sydd ar gael. Mi fydd y Cyng.Ann Tudor a'r Cyng. Rowland Jones yn bresennol.
5. Nid oes unrhyw ymateb wedi dod wrth y Cyngor Sir ynglŷn â chyflwr y Coed yn Abermad a hefyd y dŵr sy'n crynhoi ar y rhewl. Pendefynnwyd nodi eto pa mor brys yw'r pwnc yma.
6. Mae'r arwydd 'Dim Parcio' wedi eu lleoli ar fynedfa'r llwybr beicio ar rhewl Trawscoed ond yn anffodus, mae rhai aelodau o'r cyhoedd dal i barcio yno o flaen yr arwydd. Bydd rhaid cadw llygad ar hyn.
7. Dim ymateb o'r Cyngor Sir ynglŷn â chyflwr rhewl Rhosgoch - Brynchwith. Llythyr arall at y Cyngor Sir.
8. Ymateb oddi wrth Alex Glanville yn nodi nad yw'n bosib cael grant ar gyfer wal yr Eglwys oddi wrth yr Eglwys. Fe awgrymwyd bod y cyngor gysylltu ar gyngor i wneud ymholiadau am y Church fund sydd ar gael i bentrefi'r Sir. Phasiwyd I'r clerc cysylltu â'r County Treasurer i wneud ymholiadau pellach.

**15/901 - LLYTHYRON**

1. Llythr oddi wrth y Ddolen yn ofyn a fydd y cyngor cymuned yn fodlon ystyried cefnogi'r Papur Bro eleni eto. Penderfynnwyd rhoi rhodd o £100. Cynigwyd i dalu gan y Cyng.Ada

Evans ac fe eiliwyd can yn Cyng.Richard Davies.  Fe wnaeth y Cyng.Rowland Jones datgan diddordeb.

2. Llythyr oddi wrth Humphreys Roberts & Bott ynglŷn â 'Mary Eiddwen Jenkins Trust Fund'. Phasiwyd i'r clerc ysgrifennu yn ôl atyn nhw a manylion a ofynnwyd am yn eu llythyr.
3. Taflen wybodaeth Elin Jones, Plaid Cymru.
4. 'Latest Surgery dates' Mark Williams MP.
5. Llythyr o'r Cyngor Ceredigion  a manylion 'Cynllun Mabwsiadu Llwybyr'.
6. Nifer o negeseuon e-bost a dderbyniwyd oddi wrth Un Llais Cymru, megis….Climate change Manifesto, Hyfforddiant Miss Chwefror, Pwyllgor Ardal Ceredigion i)Ship Fire Fighting at Sea ii)Café Facilities at the Fire Station, Public Appointments opportunities/Public Appointment.

**15/902 – ARIANNOL**

1. Precept 2016-2017.  Ar ôl trafod costau'r flwyddyn yma, yn erbyn costiau 2015-17, fe nodwyd hyn yn £7200 eleni eto.   Roedd y cynghorwyr i gyd yn gytûn.
2. Cyflog y Clerc ar gyfer Miss Chwefror; £113.27.  Cynigiwyd i'w dalu gan y Cyng. Dylan Edwards ac eiliwyd gan y Cyng.Rowland Jones.
3. Aelodaeth Un Llais Cymru £132. Cynigwyd i'w dalu gan y Cyng. Meic Francis ac eiliwyd gan y Cyng. Meirion Davies.
4. Rhodd y Ddolen £100, cynigwyd i'w dalu gan y Cyng.Ada Evans ac eiliwyd gan y Cyng.Richard Davies.

**15/903 – CYNLLUNIO**

Cais A150947 – Demolish the existing listed Building
Tyncefn, Rhos Y Garth, Llanilar

Penderfynnwyd cefnogi'r cais.  Fe wnaeth y Cynhorydd Rowland Jones datgan diddordeb.

**15/904 - UNRHYW FATER ARALL**

1. Waneth y Cyng. Caredig Jones dwyn sylw'r cyngor at y dŵr sy'n casglu ar waelod y rhiw yn y pentref (gyferbyn a Dol Fach)
2. Nodwyd fod y Bottle Bank yn aml yn orlawn.  Mi fydd rhai cadw llygaid ar hyn.
3. Dwedwyd y Cyng.Ann Tudor fod llawer o 'pot-holes' tu allan i Lidiardau ar rhewl Trawscoed. Phsiwyd i'r clerc ysgrifennu at yr Adran Priffirdd ynglŷn â hyn.

Gorffennwyd y cyfarfod am 9.00yh